

Yn bresennol:

Ymddiriedolwyr:	Paul Airey (Cadeirydd & Gweithrediadau), Paul Frost (Llywodraethu), Joan Edwards (Ymddiriedolwr ac arweinydd ar Gyllid).
Tîm Staff	Tracey Evans (Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cwmni), Mark Jones (Rheolwr Rhaglen), Simon Jones, Elin Humphreys, Lowri Hurdman, Bethan Davies, Sian Williams, Sioned Thomos, Leila Connolly, Bethan Logan, Brett Mahoney, Caoimhe Connor, Claire Bryant, Vincent McWhirter, Roger Pierce, Wyn Roberts (Marchnata Aqua Marketing)
Rhanddeiliaid	54 aelod yn bresennol

1. Croeso

Croesawodd PA bawb i'r cyfarfod a nododd fod penderfyniad wedi'i wneud gan y Bwrdd I gynnal CCB yn rhithiol yn unol â chanllawiau Covid-19 y Llywodraeth.

Roedd copïau o'r holl adroddiadau a'r gwaith papur perthnasol ar gael cyn y cyfarfod

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Joanne Owen (Cynhwysol), Leah Watkins (AD), Stuart Wallace (Cyfreithiol).

3. Cofnodion y CCB diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai gwir a chywir.

4. Materion yn codi

Ni fu unrhyw faterion yn codi.

5. Adroddiad y Cadeirydd

5.1 Darllenodd PA yr adroddiad ysgrifenedig a thynnodd sylw at rai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn gan nodi'r meysydd gwaith fydd â blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod (adroddiad y Cadeirydd ynghlwm). Croesawodd PA yr holl staff newydd sy'n gweithio yn yr ardaloedd newydd yng nghanolbarth a de Cymru yn ogystal â'r swyddog newydd yng Ngwynedd. Diolchodd PA i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus ac i TE a'r holl staff am eu gwaith rhagorol eleni yn ystod cyfnod heriol iawn.

5.2 **PENDERFYNIAD:** Derbyn adroddiad y Cadeirydd.

6. *Ethol Cyfarwyddwyr*

6.1 Diolchodd PA i Jim Jones ac Amanda Davies am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd. Adroddodd PA bod dwy swydd wag ar y Bwrdd ar hyn o bryd yn ogystal â swydd ymddiriedolwr presennol, sef JE sydd i fod i sefyll i lawr yn dilyn ei chyfnod o dair blynedd.

Mae JE yn fodlon ailsefyll fel Cyfarwyddwr Cyllid ac o ganlyniad cynigiodd PA y dylid ail-ethol JE i swydd Cyfarwyddwr Cyllid. Eiliodd PF y cynnig. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

Dywedodd PA fod cais wedi dod i law oddi wrth Margaret Hollings ar gyfer un o swyddi gwag y gwasanaethau Marchnata a Masnachol a'i bod wedi'i chyfweld. Ar hyn o bryd Margaret yw Cyfarwyddwr Masnachol Hosbis Dewi Sant. Cynigiodd JE ac eiliodd PF y swydd. Croesawodd PA Margaret yn ffurfiol i'r Bwrdd a nododd pa mor falch yw'r elusen i gael arbenigedd o'r fath.

Dywedodd PA fod swydd wag o hyd ar gyfer rhywun â phrofiad cyfreithiol a gofynnodd i'r rhanddeiliaid i rannu gyda'u rhwydweithiau.

7. **Adroddiad Ariannol a chymeradwyo cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2021**

7.1 Rhoddodd JE grynodedb cyffredinol o'r cyfrifon blynyddol

7.2 Codwyd cwestiwn ynghylch y cronfeydd anghyfyngedig. Nodwyd bod y cronfeydd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'n cynllun adennill wrth i ni geisio cynnal o leiaf 6 mis o gyllid i dalu costau rhedeg yr elusen.

7.2 Diolchodd PA i JE am gadw llygaid manwl ar arian yr elusen. Diolchodd JE i Elin Humphreys am wneud yr holl waith ariannol o ddydd i ddydd.

7.3 **PENDERFYNIAD:** Cymeradwywyd a llofnodwyd y cyfrifon ar gyfer 2020-21.

8. *Enwebiadau ar gyfer aelodaeth i'r grŵp Rhanddeiliaid*

8.1 Ni fu unrhyw geisiadau / enwebiadau ar gyfer aelodaeth Rhanddeiliaid

9. *Unrhyw fater arall*

9.1 Diolchodd Ken Newing yn fawr iawn i'r Bartneriaeth Awyr Agored ar ran Clwb Hwyllo Y Felinheli / Clwb Hwyllo Port Dinorwig sydd wedi ennill Clwb y Flwyddyn yng Nghymru a chlwb cenedlaethol y flwyddyn o fewn y DU, gan ddiolch am yr holl gefnogaeth gan RYA Cymru a'r Bartneriaeth Awyr Agored am gefnogi eu gwirfoddolwyr.

Diolchodd PA i Ken a'r holl sefydliadau eraill sy'n chwarae eu rhan i ddarparu cyfleoedd i bobl leol a'u cymunedau.

9.2 Llongyfarchodd Steven Morgan (Rheolwr y Ganolfan, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai) Y Bartneriaeth Awyr Agored am flwyddyn lwyddiannus iawn.

9.3 Diolchodd Richard Metcalf (Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Cumbria) i'r holl staff ac Ymddiriedolwyr Y Bartneriaeth Awyr Agored am fwrw ymlaen â'r holl waith gwych sy'n digwydd yn Cumbria ac yn arbennig i Claire, sydd wedi cyflawni cymaint er gwaethaf y cyfnod clo. Nododd Richard fod Claire bellach yn dechrau newid y diwylliant yn Cumbria.

Diolchodd PA i Richard a Trevor Quinn (Cadeirydd GRh Gogledd Iwerddon) a Willie White (Cadeirydd GRh yn Ayrshire) am yr holl gefnogaeth.

9.4 Nododd Paul Renfro (Fforwm Arfordirol Sir Benfro) ei fod yn edrych ymlaen at weithio mwy gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored yn eu hardal.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf

10.1 Medi 2022 (dyddiad i'w gadarnhau)

Daeth PA â'r cyfarfod i ben yn ffurfiol drwy ddiolch i bawb a fynychodd. Daeth y cyfarfod i ben am 10.30am